

THOMAS, CLARA (1841 - 1914), tirfeddiannwr a dyngarwr

Enw: Clara Thomas
Dyddiad geni: 1841
Dyddiad marw: 1914
Rhiant: Henry Thomas
Rhiant: Clara Thomas (née Thomas)
Rhyw: Benyw
Galwedigaeth: tirfeddiannwr a dyngarwr
Maes gweithgaredd: Perchnogaeth Tir; Dyngarwch
Awdur: Huw Thomas Davies

Ganwyd Clara Thomas ar 22 Awst 1841 ym Mhlas Pencerrig, Llanfihangel, Sir Faesyfed, yr olaf o bedwar o blant Henry Thomas (1808-1863) o Lwyn Madoc, Llanfihangel Abergwesyn, tirfeddiannwr, cyfreithiwr a chadeirydd Llys y Sesiwn Cwarter, a'i wraig Clara (g. Thomas, 1814-1877) o Bencerrig. Roedd y teulu'n berchen ar dir oedd eang yn siroedd Brycheiniog, Maesyfed, Ceredigion a Morgannwg, a gellir olrhain eu hachau i [Elstan Glodrydd](#), sylfaenydd llwyth brenhinol Rhwng Gwy a Hafren.

Drwy ffawd a thrychineb teuluol etifeddodd Clara Thomas yr holl eiddo yng nghanolbarth Cymru a chymoedd y de. Bu farw dau frawd a chwaer cyn cael cyfle i etifeddu: Clara Gwynne Thomas (1836-1836), Evan Thomas Gwynne Thomas (1837-1838) ac Evan Llywelyn Thomas (1839-1864). Roedd Evan Llywelyn Thomas wedi dyweddio yn 1863 ag [Elizabeth Amy Dillwyn](#), ond fe fu farw o'r frech wen ym Mharis. Erbyn 1873 amcangyfrifwyd bod Clara Thomas yn berchen ar 14,333 o erwau o dir ym Mrycheiniog, Maesyfed a Morgannwg, yn codi rhent blynyddol o £5,279.

Dyma oedd dechrau bywyd o gyfrifoldebau mawr i Clara Thomas. Adnabuwyd hi fel tirfeddiannwr teg a ofalai am les ei thenantiaid. Adeiladwyd eglwysi niferus ganddi, yn aml er cof am ei theulu ond hefyd yn y cymoedd diwydiannol i ddarparu yn ysbrydol ar gyfer y boblogaeth. Darparwyd tir ac ariannwyd llyfrgelloedd, athrofeydd, sefydliadau'r gweithwyr, ysbytai, cartrefi gofal, cartrefi nyrsys, canolfannau ieuencid ac ysgolion. Cynigiwyd cymorth i amrywiol fudiadau dyngarol ac yn arbennig i weddwon a theluoedd yn dilyn trychinebau yn y maes glo. Yr oedd llawer o'i rhoddion ariannol yn ddiennw ac adnabuwyd y cyfraniadau fel rhai gan Miss X. Cefnogwyd cronfeydd adeiladu Coleg Prifysgol De Cymru a Choleg Dewi Sant, Llanbedr Pont Steffan, ac roedd hi'n aelod o Lys Llywodraethwyr Prifysgol Cymru.

Roedd ei hunaniaeth Gymreig yn bwysig iddi, a medrai siarad a darllen Cymraeg. Cyfrannodd yn ariannol at eisteddfodau lleol a chenedlaethol. Cefnogodd godi cofgolofn i nodi marwolaeth [Llywelyn ap Gruffudd](#), Tywysog Gwynedd, ger Llanfair ym Muallt, ac roedd yn gefnogol hefyd i'r syniad o gerflun ym Mharc Ynysangharad, Pontypridd, i gofio am awduron yr Anthem Genedlaethol, [Evan James](#) a [James James](#). Roedd hi yn danysgrifiwr ac yn aelod o Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion.

Ystyriai Lwyn Madoc a Phencerrig yn gartrefi iddi. Bu'n aelod o Fwrdd Gofalwyr Llanfair ym Muallt a'r fenyw gyntaf i fod yn Gyngorydd Sir yn cynrychioli Llanfihangel Abergwesyn. Roedd ganddi gymdeithion yn gefn iddi yn Margaret Gertrude Lewis Lloyd (1830-1907) o Nantgwyllt, Cecilia Agnes Ann Turner (1851-1932) Dolyffin a Rosalind Margaret Phillimore (1881-1953). Teithiai'n flynyddol ar y Daith Fawr yn Ewrop ac yn ddiweddarach i'r Aifft. Yn athrawes fedrus, cynhaliodd ddosbarthiadau ysgol ac ysgolion Sul gyda Margaret Lloyd. Yn Anglican o ran ei ffydd, roedd yn gefnogol hefyd i achosion anghydfurfiol.

Bu farw Clara Thomas o ganser yr arenau ar 12 Mehefin 1914 yng Ngwesty'r Bailey, Ffordd Caerloyw, Llundain. Cludwyd ei chorff nôl i Gymru i'w gladdu yn Eglwys Oen Duw, Llanfihangel Abergwesyn. Gadawyd £133,640 yn ei hewyllys, yn darparu ar gyfer ei theulu estynedig, ei ffrindiau mynwesol a'i staff teyrngar.

Awdur

Huw Thomas Davies

Ffynonellau

Gwasanaethau Archifau Maesyfed a Sir Brycheiniog: plwyfi, genedigaethau, priodasau a gostegion, claddedigaethau

Cofnodion cyfrifiad Lloegr a Chymru, 1841-1911

Archifau Cenedlaethol y DU (TNA): Swyddfa Cofnodion Cyhoeddus (PRO)

Swyddfa'r Gofrestr Gyffredinol, mynegeion cofrestru sifil Lloegr a Chymru

UK and Ireland, Find A Grave Index

Cofnodion ewyllysiau a phrofebion, Llyfrgell Genedlaethol Cymru

[Papurau Newydd Cymru](#), Llyfrgell Genedlaethol Cymru

Archif teulu Llwyn Madoc

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q122750045](#)

Dyddiad cyhoeddi: 2023-09-20

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

